

Cyngor Cymuned Llangywer

Nos Lun, Mai 11, 2015

Cyfarfu Cyngor Cymuned Llangywer ar Fai 11 2015 ac yn bresennol roedd Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones (is-Gadeirydd), John Morris, Linda Morris, Gwyn Roberts, Tylly Roberts, W D Williams,

Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Cadeirydd a thalodd ddiolch i'r cyn-Gadeirydd, Linda Morris, am lywio'r cyfarfodydd yn ddeheuig iawn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda ac nid oedd datganiadau buddiant.

Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 23, 2015 a rhoddodd W D Williams adroddiad o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn pryd y cafwyd cyflwyniad gan Mr Julian Birley oar ei gynlluniau ar gyfer Reilffordd Llyn Tegid.

Materion ariannol: Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a chymeradwywyd anfon yr wybodaeth ariannol i'r Archwilwyr. Cytunwyd i dalu Zurich am Yswiriant 2015-16. Ystyriwyd ffioedd claddu yn y fynwent a chytunwyd i ddilyn trefn Cyngor Cymuned Llanuwchllyn ar hyn o bryd ond i adolygu'r sefyllfa os bydd angen gwneud.

Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned Mynegodd yr aelodau bryder am sicrwydd y cynlluniau ar gyfer yr ysgol gydol oes. Roedd pryder yn parhau am y coed sy'n beryglus i deithwyr wrth Capel y Glyn. Biniâu wrth waelod ffordd y Wenallt: mae angen eu symud nôl o'r golwg i atal pobol sydd heb yr hawl i'w defnyddio. Roedd anfonlonrwydd fod y ffordd i Rosygwaliau wedi ei chau am wythnos er bod BT wedi cwblhau'r gwaith o fewn rhai diwrnodau. Mynegwyd y farn y byddai'n arfer da ar achlysur cau ffordd pe byddid yn anfon llythyr at drigolion i roi gwybodaeth iddynt. Mae angen uwchraddio'r ffordd o dan Fryntirion. Cytunwyd i'r Clerc weithredu ar y materion hyn.

Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gyfeiriodd at y galw am swyddfeydd yng Nghanolfan yr Henblas a'r defnydd cynyddol o'r ystafell gwnsela. Y bwriad yw ceisio am grant i uwchraddio'r llawr uchaf.

Gohebiaeth:

Derbyniwyd neges o ymddiswyddiad o'r Cyngor gan Linda Morris. Diolchwyd iddi'n gynnes iawn am ei blynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned a dymunwyd yn dda iawn iddi. Cyfarwyddwyd y Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd ac i ddilyn y drefn arferol. Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am drefn newydd i'r gwasanaeth ar roi cyngor ar geisiadau cynllunio. Derbyniwyd copïau o "Y Llais" Derbyniwyd diolch am gyfraniadau oddi wrth yr Eisteddfod Gylch, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieucanc Meirionnydd a Phwyllgor y Neuadd. Ystyriwyd cais am arian i gadw sinema a phrynu offer digidol. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd.